

Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro
Morgannwg, Ysbyty Gorseinon, Ward y
Gorllewin**

17 a 18 Medi 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn:	0300 062 8163
Ebost:	agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs:	0300 062 8387
Gwefan:	www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Dull	2
3. Cyd-destun	3
4. Crynodeb	4
Canfyddiadau	6
Ansawdd Profiad y Claf	6
Darpariaeth yr Hanfodion Gofal	9
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol	15
Y Camau Nesaf	19
Atodiad A	20

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd o Ward y Gorllewin yn Ysbyty Gorseinon, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 17 a 18 Medi 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Darpariaeth yr Hanfodion Gofal
- Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol

2. Dull

Mae Arolygiadau 'Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC yn adolygu'r ffordd y cynhelir urddas cleifion mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio sylfaenol y mae cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth y mae AGIC yn meddu arni
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau a chyfweliadau ag aelodau staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwi'r amgylchedd gofal ac arfer gofal yn gyffredinol

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gallai'r arolygiadau hyn nodi problemau ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas hefyd.

3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn gwasanaethu poblogaeth o tua 500,000 o bobl ac yn cyflogi tua 16,500 o aelodau staff, ac mae 70% ohonynt yn ymwneud â gofal cleifion uniongyrchol.

Ceir pedwar ysbyty aciwt yn y bwrdd iechyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau; Ysbytai Singleton a Threforys yn Abertawe, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw'r rhain. Ceir nifer o ysbytai cymuned llai hefyd, sy'n darparu gwasanaethau clinigol y tu allan i'r pedwar prif ysbyty aciwt.

Ceir uned 44 gwely (Ward y Gorllewin) yn ysbyty cymuned Gorseinon, sy'n darparu asesiadau a gofal adsefydlu i'r henoed, ysbyty dydd ac adran cleifion allanol. Ceir cilfannau sawl gwely a chiwbiclau sengl ar Ward y Gorllewin.

Rheolir Ward y Gorllewin gan reolwr uned wedi ei gefnogi gan ddau ddirprwy a thîm o nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd ac aelodau staff ategol. Mae gan y ward berthynas waith agos gydag aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaeth, gan gynnwys ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol wedi eu lleoli yn yr ysbyty a thimau cymunedol.

4. Crynodeb

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion yn gyffredinol eu bod yn fodlon iawn gydag ansawdd y gofal iddynt ei dderbyn.

Gwelsom aelodau staff yn annog ac yn cynorthwyo cleifion i fod mor annibynnol â phosibl, yn eu trin gyda pharch ac yn sicrhau eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth i gleifion weithiau wedi ei harddangos mewn ffordd a allai arwain at ei rhannu'n anfwriadol.

Gellid defnyddio arwyddion gwell i gynorthwyo cleifion i ddod o hyd i'r toiled a chyfleusterau ymolchi'n haws.

Gwelsom y gofalwyd am y cleifion yn dda iawn a chanfuwyd bod yr aelodau staff wedi ymrwymo i ddarparu safonau da o ofal. Dywedodd y cleifion wrthym fod yr aelodau staff yn eu helpu yn ôl yr angen, ond bod oediadau o ran aelodau staff yn ymateb i seinyddion.

Roedd trefniadau priodol ar waith i gleifion orffwyso yn ystod y dydd a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gyfforddus.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn drwsiadus ac fe'n hysbyswyd ganddynt fod aelodau staff yn eu helpu nhw pan roeddent ei angen.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn mwynhau'r bwyd a bod aelodau staff yn eu helpu os oes angen cymorth arnynt.

Ceir toiledau addas ar yr uned ac roedd y rhain yn lân iawn. Caiff preifatrwydd cleifion ei ddiogelu; fodd bynnag, gellid defnyddio arwyddion preifatrwydd i sicrhau preifatrwydd ymhellach.

Gwelsom offer arbenigol yn cael ei ddefnyddio ac aelodau staff yn cynorthwyo cleifion i symud o gwmpas i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Gwelsom aelodau staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac roedd yn ymddangos bod gan unigolion ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau unigol o fewn y tîm.

Roedd diffygion o ran staffio yn ystod ein hymweliad. Roedd aelodau staff uwch eisoes wedi gwneud trefniadau i drafod y mater a chytuno ar ffordd foddhaol ymlaen.

Fe'n hysbyswyd bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a bod y canlyniadau'n cael eu monitro gan uwch reolwyr a oedd angen cynlluniau gwella pe bai canlyniadau'n awgrymu achos i boeni.

Yn gyffredinol, gwelsom gleifion yn derbyn gofal mewn amgylchedd a oedd yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd offer yn cael ei storio mewn coridorau ar adegau gan achosi perygl o faglu i gleifion ac aelodau staff.

Nid oedd yn eglur a oedd y cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion gofal cyfredol y cleifion. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fynd i'r afael â hyn felly. Hefyd, pan nodir materion diogelu posibl, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn gofyn am gyngor ar gamau pellach a allai fod yn ofynnol.

Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion yn gyffredinol eu bod yn fodlon iawn gydag ansawdd y gofal iddynt ei dderbyn.

Gwelsom aelodau staff yn annog ac yn cynorthwyo cleifion i fod mor annibynnol â phosibl, yn eu trin gyda pharch ac yn sicrhau eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth i gleifion weithiau wedi ei harddangos mewn ffordd a allai arwain at ei rhannu'n anfwriadol.

Gellid defnyddio arwyddion gwell i gynorthwyo cleifion i ddod o hyd i'r toiled a chyfleusterau ymolchi'n haws.

Wrth gynnal yr arolygiad hwn, gwahoddwyd cleifion i gwblhau holiaduron (AGIC) i roi eu safbwyntiau i ni ar y gofal iddynt ei dderbyn. Cwblhawyd cyfanswm o 12 holiadur gan gleifion (neu ar eu rhan gan berthnasau) naill ai trwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb neu wedi eu dychwelyd atom drwy'r post.

Roedd y sylwadau gan gleifion yn cynnwys:

- “Dim ond i ddweud y gofalwyd amdanaf i'n dda.”
- “Dim bai o gwbl. Maen nhw'n hyfryd yma.”
- “Bodlon iawn gyda'r gofal rwy'n ei dderbyn yma.”

Cyfathrebiad a gwybodaeth

Mae'n rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion a'u perthnasau'n nodi'n gyffredinol bod aelodau staff wedi rhoi gwybodaeth iddynt am eu gofal a'u triniaeth mewn ffordd y gallent ei deall. Yn gyffredinol, gwelsom aelodau staff yn cymryd eu hamser yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud ac yn gofyn am ganiatâd llafar gan gleifion cyn darparu gofal a chymorth.

Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn teimlo bod yr aelodau staff yn gwrando arnyn nhw a'u perthnasau. Gwelwyd bod gan yr aelodau staff berthynas dda gyda'r cleifion a'u bod yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Parchu Pobl

Mae'n rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis cytbwys bob amser, ac mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn i ystyriaeth.

Roedd yr aelodau staff yn barchus tuag at y cleifion gan eu trin gydag urddas a chwarteisi. Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion i ni ofyn iddynt fod yr aelodau staff yn foesgar ac yn eu hannerch gan ddefnyddio'r enw o'u dewis.

Roedd yr aelodau staff yn sicrhau preifatrwydd cleifion trwy gau llenni o amgylch gwelyau cleifion wrth eu cynorthwyo gyda gofal personol. Nodwyd bod drysau i doiledau ac ystafelloedd ymolchi ar gau pan roedd cleifion yn defnyddio'r cyfleusterau hyn, gan gynnig preifatrwydd a diogelu eu hurddas. Gellid rhoi mesurau ar waith e.e. arwyddion preifatrwydd i nodi'n eglur pan fo'r cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio, i sicrhau preifatrwydd ymhellach.

Roedd gwybodaeth am y cymorth sydd ei angen ar gleifion i symud a throsglwyddo'n ddiogel wedi ei harddangos ar loceri rhai ohonynt. Yn yr un modd, roedd gwybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni wedi ei chofnodi ar fyrddau cyfathrebu y tu allan i swyddfa rheolwr yr uned. Gallai arddangos gwybodaeth o'r fath beryglu preifatrwydd cleifion a dylid gwneud trefniadau i atal gwybodaeth rhag cael ei rhannu gydag eraill yn anfwriadol.

Er bod nodiadau meddygol wedi eu ffeilio mewn trolïau, nid oedd y rhain ar glo. Dylid gwneud trefniadau i ddiogelu nodiadau ymhellach pan nad ydynt yn cael eu defnyddio neu pan nad yw'r ardal yn cael ei goruchwyllo gan aelodau staff.

Gwelwyd rhywfaint o ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng aelodau staff a chleifion, lle cymerodd yr aelodau staff yr amser i wrando ar gleifion a'u cynorthwyo mewn ffordd sensitif a charedig.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau nad yw gwybodaeth gleifion yn cael ei rhannu gydag eraill yn anfwriadol.

Hybu annibyniaeth

Mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i wneud y gorau o'i allu a'i ddymuniad i ofalu am ei hun.

Mae Ward y Gorllewin yn darparu asesiadau a gofal adsefydlu i gleifion. Mae ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol wedi eu lleoli ar y safle ac yn cymryd rhan ymarferol yn y gwaith o hybu annibyniaeth gleifion gyda'r nod o sicrhau bod cleifion yn gallu dychwelyd i'w cartrefi eu hunain.

Roedd amrywiaeth o offer, fel cymhorthion cerdded, ar gael i gynorthwyo cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Roedd yr offer a welwyd yn amlwg yn lân ac roedd yn ymddangos ei fod wedi ei gynnal a'i gadw'n dda.

Nododd sylwadau gan aelodau staff nyrsio y byddent yn hoffi gallu treulio mwy o amser gyda chleifion i gefnogi ac annog annibyniaeth. Er hyn, gwelwyd fod yr aelodau staff yn gwneud amser i annog a chefnogi cleifion i ddefnyddio cymhorthion cerdded gan roi hwb i hyder ac annibyniaeth cleifion.

Yn ystod adegau prysurach y bore, roedd offer wedi ei storio mewn coridorau yn ei gwneud yn anodd i gleifion symud heb gael eu goruchwyllo. Hefyd, nid oedd yr holl doiledau ac ystafelloedd ymolchi wedi eu nodi'n eglur sy'n golygu y gallai fod yn anodd i rai cleifion gael mynediad at y manau hynny'n annibynnol. Gellid defnyddio arwyddion gwell a gwahanol liwiau ar ddrysau i gynorthwyo cleifion i ddod o hyd i'r manau hyn yn haws.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio arwyddion gwell a gwahanol liwiau ar ddrysau toiledau ac ystafelloedd ymolchi i gynorthwyo cleifion i ddod o hyd i'r rhain yn haws.

Cysylltiadau

Mae'n rhaid annog pobl i gynnal eu cysylltiadau â'u teulu a'u ffrindiau a datblygu perthynas gydag eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Mae Ward y Gorllewin yn gweithredu polisi amseroedd ymweld strwythuredig. Fodd bynnag, cadarnhaodd rheolwr yr uned na fyddai unrhyw gais rhesymol i ymweld y tu allan i'r oriau hyn yn cael ei wrthod.

Gyda hyn mewn golwg, roedd trefniant amser prydau bwyd wedi'i ddiogelu ar waith, ac ni anogir ymweliadau yn ystod prydau bwyd oni bai fod perthnasau neu ffrindiau'n darparu cymorth. Gwelsom nad oedd amser prydau bwyd yn fryslog a'u bod yn hamddenol yn gyffredinol.

Ceir cilfannau sawl gwely a chiwbiclau sengl ar y ward. Mae'r cilfannau sawl gwely'n galluogi cleifion i wneud ffrindiau gyda chleifion eraill a gwelwyd pobl yn sgwrsio gyda'i gilydd i basio'r amser. Mae'r ciwbiclau sengl yn cynnig mwy o breifatrwydd a thawelwch i'r cleifion hynny sydd eu hangen.

Mae ystafell ddydd wedi ei lleoli yn yr ysbyty a ddim yn bell o'r uned. Mae hon yn cynnig man i gleifion dreulio amser gyda'u hymwelwyr yn gymharol breifat. Gwelsom gleifion yn treulio amser gyda'u hymwelwyr yn yr ystafell ddydd ac yn yr ardd yn agos at yr uned.

Darpariaeth yr Hanfodion Gofal

Gellir dod o hyd i'n canfyddiadau ar y safonau 'Hanfodion Gofal' yn ymwneud â chyfathrebiad a gwybodaeth, parchu pobl, sicrhau diogelwch, hybu annibyniaeth a chysylltiadau yn adrannau eraill yr adroddiad hwn.

Gwelsom y gofalwyd am y cleifion yn dda iawn a chanfuwyd bod yr aelodau staff wedi ymrwymo i ddarparu safonau da o ofal. Dywedodd y cleifion wrthym fod yr aelodau staff yn eu helpu yn ôl yr angen, ond bod oediadau o ran aelodau staff yn ymateb i seinyddion.

Roedd sylwadau gan gleifion yn cynnwys:

- “Mae'r bwyd yn ardderchog.”
- “Mae'r ymateb i'r seinydd weithiau'n arafach nag y byddem yn ei hoffi – yn enwedig yn y nos.”
- “Weithiau'n araf os yn brysur ond byddant yn dod i ddweud wrthyf y byddant yna'n fuan.”

Gorffwys, Cwsq a Gweithgarwch

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwyso a chysgu.

Roedd trefniadau priodol ar waith i gleifion orffwyso yn ystod y dydd a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gyfforddus.

Er bod y boreau'n ymddangos yn brysur, gan fod cleifion eisiau cymorth yn gyffredinol i ymolchi a chael allan o'r gwely ar yr adeg hon o'r diwrnod, cynigiwyd cyfleoedd trwy weddill y diwrnod i'r cleifion orffwyso. Mae'r uned yn gweithredu polisi amseroedd ymweld strwythuredig ac mae hyn yn galluogi cleifion i orffwyso yn y prynhawn.

Gwelwyd cleifion yn mynd i'w gwelyau yn y prynhawn i gael nap neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau tawel yn unol â'u dymuniadau. Roedd yr uned yn teimlo'n gyfforddus o gynnes ac awyrog gan helpu pobl i gysgu.

Er bod setiau teledu ar gael i'r cleifion eu defnyddio, dylid ystyried cynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i gleifion yn unol â'u dymuniadau ac i atal diflastod.

Sicrhau Cysur, Lleddfu Poen

Mae'n rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus a rhydd o boen ag y mae eu hamgylchiadau yn ei ganiatáu.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gyfforddus.

Gwelwyd yr aelodau staff yn cynorthwyo cleifion i gael eu hunain yn gyfforddus yn y gwely neu yn y gadair.

Hylendid Personol, Ymddangosiad a Gofal Traed

Mae'n rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn drwsiadus ac fe'n hysbyswyd ganddynt fod aelodau staff yn eu helpu nhw pan roeddent ei angen.

Roedd y cleifion yn ymddangos yn lân ac roeddent yn gwisgo dillad dydd neu byjamas yn unol â'u dymuniadau. Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn gyfforddus ac roedd yn ymddangos eu bod yn derbyn gofal da.

Gwelwyd fod preifatrwydd cleifion yn cael ei sicrhau wrth iddynt gael eu cynorthwyo gyda'u hanghenion hylendid. Cadarnhaodd sylwadau gan gleifion bod aelodau staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal iddynt.

Bwyta ac Yfed

Mae'n rhaid i bobl gael cynnig dewis o fwyd a diod sy'n bodloni eu gofynion maethgol a phersonol a derbyn unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn mwynhau'r bwyd a bod aelodau staff yn eu helpu os oes angen cymorth arnynt.

Mae gan y ward drefn amser prydau bwyd wedi'i ddiogelu ar waith i sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hymyrryd yn ddiangen wrth fwyta eu prydau. Roedd y prydau a weinwyd yn ymddangos yn flasus a chadarnhaodd y cleifion eu bod yn hoffi'r bwyd. Gweinwyd diodydd poeth a byrbrydau yn ystod y dydd.

Mae'r ward yn defnyddio'r system 'Hambwrdd Coch'¹ i nodi'n synhwyrol y cleifion hynny sydd angen cymorth i fwyta ac y mae angen monitro eu cymeriant. Gwelwyd aelodau staff yn cynorthwyo cleifion mewn ffordd sensitif a heb frysio.

¹ Ffordd syml o hysbysu aelodau staff am y ffaith bod unigolyn angen cymorth i fwyta yw'r system 'Hambwrdd Coch'.

Nid oes prif gegin ar safle'r ysbyty. Yn hytrach, caiff prydau bwyd eu paratoi a'u danfon o ysbyty cyffredinol dosbarth cyfagos. Cadarnhaodd aelodau staff bod brechdanau, tost neu salad ar gael o gegin yr uned os bydd cleifion yn methu pryd bwyd. Gweinir diodydd poeth a bisgedi drwy'r dydd i ategu prif brydau brecwast, cinio a swper.

Iechyd a Hyllendid y Geg

Mae'n rhaid darparu cymorth priodol, synhwyrol a phrydlon yn ôl y gofyn, gan gymryd unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd i ystyriaeth.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion bod yr aelodau staff yn eu helpu gyda hyllendid y geg.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu glanhau eu dannedd/dannedd gosod mor rheolaidd ag y maent yn dymuno. Roedd potiau dannedd gosod ar gael ac yn cael eu defnyddio i storio dannedd gosod cleifion yn ddiogel pan nad oeddent yn cael eu gwisgo.

Anghenion Toiled

Mae'n rhaid darparu cymorth priodol, synhwyrol a phrydlon yn ôl y gofyn, gan gymryd unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd i ystyriaeth.

Ceir toiledau addas ar y ward ac roedd y rhain yn lân iawn. Caiff preifatrwydd cleifion ei ddiogelu; fodd bynnag, gellid defnyddio arwyddion preifatrwydd i sicrhau preifatrwydd ymhellach.

Roedd y toiledau ar y ward yn lân iawn ac yn cynnwys papur toiled a chyfleusterau golchi dwylo priodol i atal croes-heintio.

Gwelwyd fod aelodau staff yn annog cleifion i gerdded i'r toiled i hybu eu hannibyniaeth a chynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Er bod cyfleusterau en suite mewn rhai ciwbiclau, rhennir y rhan fwyaf o'r toiledau. Ceir arwyddion ar rai o'r rhan yn nodi a ydynt wedi eu neilltuo ar gyfer cleifion gwrywaidd neu fenywaidd. Er y gwelwyd aelodau staff yn diogelu preifatrwydd cleifion, gellid gwella hyn ymhellach trwy ddefnyddio arwyddion preifatrwydd fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Cadarnhaodd y cleifion bod aelodau staff yn eu helpu gydag anghenion toiled mewn ffordd sensitif, gan sicrhau cyn lleied o embaras â phosibl. Fodd bynnag, nododd sylwadau gan gleifion bod oedi cyn i aelodau staff ymateb i geisiadau i ddefnyddio'r toiled. Gallai hyn arwain at gleifion yn anymatal heb fod angen oherwydd iddynt orfod aros am gymorth. Disgrifiwyd sefyllfa o'r fath gan un claf

a ddioddefodd un achos o anymataliaeth oherwydd oedi cyn i aelod o staff ymateb i gais ar seinydd.

Atal Briwiau Pwyso

Mae'n rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Gwelsom offer arbenigol yn cael ei ddefnyddio ac aelodau staff yn cynorthwyo cleifion i symud o gwmpas i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Roedd detholiad o offer i leihau'r risg o friwiau pwyso ar y ward, fel matresi a chlustogau. Gwelwyd fod y rhain yn cael eu defnyddio ar draws y ward. Er ei bod yn ymddangos bod y mwyafrif yn lân ac yn gweithio'n iawn, roedd un sefyllfa lle'r oedd y larwm ar fatres a oedd yn cael ei defnyddio gan un claf yn seinio'n aml. Er nad oedd yn bosibl i ni ddarganfod a oedd hyn yn amharu ar y claf, mae'n amlwg y gallai fod yn rhywbeth a allai boeni cleifion a'u hatal rhag gorffwyso'n briodol. Dylai aelodau staff sicrhau felly lle mae'r larwm ar fatres arbenigol yn seinio'n aml, bod camau priodol yn cael eu cymryd i'w newid neu ei thrwsio'n brydlon.

Gwelwyd aelodau staff yn annog ac yn cefnogi cleifion i symud o gwmpas gan helpu i leihau'r perygl y byddent yn datblygu briwiau pwyso. O ran y cleifion hynny sy'n llai abl, roedd aelodau staff yn eu cynorthwyo i symud i le cyfforddus tra yn y gwely neu'n eistedd yn y gadair gan ddefnyddio cymhorthion codi a chario priodol.

Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom aelodau staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac roedd yn ymddangos bod gan unigolion ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau unigol o fewn y tîm.

Roedd diffygion o ran staffio yn ystod ein hymweliad. Roedd aelodau staff uwch eisoes wedi gwneud trefniadau i drafod y mater a chytuno ar ffordd foddhaol ymlaen.

Fe'n hysbyswyd bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a bod y canlyniadau'n cael eu monitro gan uwch reolwyr a oedd angen cynlluniau gwella pe bai canlyniadau awgrymu achos i boeni.

Ar adeg ein hymweliad, 1 rheolwr uned wedi ei gefnogi gan 2 ddirprwy oedd y strwythur rheoli. Roedd tîm uniongyrchol yr uned yn cynnwys nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd ac aelodau staff ategol. Mae'r uned yn darparu asesiadau a gofal adsefydlu ac, fel y byddai disgwyl, mae ganddi gysylltiadau da ag aelodau timau amlddisgyblaeth ysbyty a chymunedol.

Fe'n hysbyswyd bod lefelau staffio wedi eu pennu fel 10 aelod o staff yn gweithio yn ystod y bore, 8 yn ystod y prynhawn a 6 yn y nos, ond roedd yr uned weithiau'n gweithredu â lefelau staffio is. Roedd hyn yn amlwg yn ystod ein hymweliad pan roedd prinder staff ar shifftiau'r bore a'r prynhawn oherwydd salwch. Roedd yn ymddangos bod hyn yn effeithio ar yr aelodau staff oedd ar gael i ymateb yn brydlon i gleifion a oedd yn defnyddio eu seinyddion i alw am gymorth. Cadarnhaodd sylwadau gan gleifion y bu oedi cyn y gallai aelodau staff eu cynorthwyo. Er y gellid gwneud cais am aelodau staff ychwanegol pan fo unrhyw brinder, fe'n hysbyswyd bod dod o hyd i aelodau staff yn peri problemau.

Fe'n hysbyswyd bod trefniadau wedi eu gwneud eisoes i aelodau staff uwch ystyried y mater a chytuno ar ffordd foddhaol ymlaen.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu a chynnal trefniadau priodol i sicrhau fod cleifion yn derbyn cymorth prydlon gyda'u hanghenion gofal yn ôl y gofyn.

Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff eu bod wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau sy'n berthnasol i'w gwaith. Fodd bynnag, nododd sylwadau a dderbyniwyd bod diffyg hyfforddiant penodol ar ofal pobl hŷn. O ystyried bod

mwyafrif y cleifion ar y ward yn oedrannus, dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn hyfforddiant.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod hyfforddiant penodol ar ofal pobl hŷn yn cael ei wneud ar gael i aelodau staff.

Roedd aelodau staff uwch yn amlwg trwy gydol ein hymweliad ac ar gael i gynig cyngor ac arweinyddiaeth i dîm yr uned. Gwelsom aelodau staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac roedd yn ymddangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau unigol o fewn y tîm.

Dangosodd aelodau staff uwch ddealltwriaeth dda o ymdrin â phryderon a godir gan gleifion neu eu perthnasau. Roedd taflenni yn nodi'r weithdrefn ar sut i godi pryderon dan 'Gweithio i Wella'² wedi eu harddangos ac ar gael i gleifion ac ymwelwyr â'r uned. Fe'n hysbyswyd gan gleifion na fu achos ganddynt i godi pryderon yn ystod eu harhosiad. Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff eu bod yn teimlo y gallent ddyrchafu unrhyw bryderon sydd ganddynt i aelodau staff uwch.

Fe'n hysbyswyd y cynhelir archwiliadau ward yn rheolaidd a chaiff canlyniadau o'r rhain eu monitro'n rheolaidd gan uwch reolwyr. Pan fo canlyniadau'n awgrymu achos i bryderu, fe'n hysbyswyd ei bod yn ofynnol i'r nyrs arwain ymchwilio ac adrodd yn ôl i uwch reolwyr, gan ddarparu cynllun gwella yn ôl y gofyn, sy'n cael ei fonitro. Nodwyd cynnydd i ganran yr aelodau staff a oedd wedi mynychu sesiynau hyfforddi gorfodol fel enghraifft o sut roedd y system hon wedi sbarduno gwelliant.

² 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol

Sicrhau Diogelwch

Mae'n rhaid hybu a diogelu iechyd, diogelwch a lles pobl yn ymarferol. Mae'n rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.

Yn gyffredinol, gwelsom gleifion yn derbyn gofal mewn amgylchedd a oedd yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd offer yn cael ei storio mewn coridorau ar adegau gan achosi perygl o faglu i gleifion ac aelodau staff.

Nid oedd yn eglur a oedd y cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion gofal cyfredol y cleifion. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i fynd i'r afael â hyn felly. Hefyd, pan nodir materion diogelu posibl, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn gofyn am gyngor ar gamau pellach a allai fod yn ofynnol.

Roedd sylwadau gan gleifion yn cynnwys:

- “Mae popeth fel pin mewn papur.”
- “Mae'r glanhawyr yn glanhau popeth, hyd yn oed y gwelyau.”
- “Nid wyf erioed wedi gweld ysbyty mor lân â hwn”

Yr Amgylchedd

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod yr uned yn darparu amgylchedd diogel i gleifion ac aelodau staff. Fodd bynnag, roedd cawodydd a thoiledau'n cael eu defnyddio i storio offer. Er nad oedd yn ymddangos bod hyn yn effeithio ar fynediad cleifion at y mannau hyn, byddai'n anodd i aelodau staff gael mynediad at offer pan roedd cawodydd a thoiledau'n cael eu defnyddio heb amharu ar gleifion. Roedd hyn yn cael ei reoli yn ystod y bore trwy storio offer mewn coridorau. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at fannau anniben ac offer yn achosi perygl o faglu i gleifion ac aelodau staff.

Trafodwyd hyn gyda rheolwr yr uned a oedd eisoes wedi nodi hyn fel problem y mae angen mynd i'r afael â hi ac roedd yn gwneud ymdrech i ddatrys y mater.

Mae gan yr holl gleifion fynediad at seinydd i alw'r nyrsys i ofyn am gymorth. Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd yn gynharach, fe'n hysbyswyd gan gleifion bod oedi weithiau cyn i aelodau staff ymateb i alwadau. Roedd yn ymddangos bod lefelau staffio yn ystod ein hymweliad yn effeithio ar allu aelodau staff i ymateb i seinyddion. Hefyd, roedd un claf angen lefel uwch o oruchwyliaeth ac, unwaith eto, roedd yn ymddangos bod lefelau staffio yn effeithio ar allu aelodau staff i ddarparu goruchwyliaeth briodol bob amser.

Roedd drws tân i gegin y ward wedi ei letemu yn agored gan beryglu diogelwch cleifion ac aelodau staff pe bai tân. Tynnwyd sylw rheolwr a nyrs arwain yr uned at hyn ac aethpwyd i'r afael â'r mater ar unwaith. Cadarnhaodd y nyrs arwain y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud i gynyddu'r awyriad i'r gegin er mwyn sicrhau cysur aelodau staff sy'n gweithio yn yr ystafell hon.

Rheoli Heintiau

Roedd pob rhan o'r ward a'r offer yn amlwg yn lân. Roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael ynghyd ag offer diogelu personol fel menig a ffedogau untro i aelodau staff eu defnyddio i leihau croes-heintio. Gwelsom yn gyffredinol bod aelodau staff yn defnyddio menig a ffedogau wrth gynorthwyo cleifion a glanhau offer. Gwelsom ar un achlysur aelodau staff ddim yn gwisgo ffedogau untro wrth lanhau offer gan gynyddu'r perygl o groes-heintio. Cymerodd yr aelodau staff gamau cywiro ar unwaith pan amlygwyd hyn gennym, gan wisgo ffedogau i orffen y dasg.

Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed

Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn cleifion rhag camdriniaeth ac esboniwyd ganddynt y byddent yn hysbysu aelodau staff uwch ar ddyletswydd am unrhyw bryderon. Roedd yr hyfforddiant hwn yn rhan o hyfforddiant gorfodol ynghyd â hyfforddiant diogelwch arall fel diogelwch tân a rheoli heintiau.

Nodwyd problem ddiogelwch posibl gennym yn ystod ein hymweliad. Er i ni gael ein hysbysu bod hwn wedi cael ei adrodd yn gywir gan aelodau staff fel digwyddiad, ni ofynnwyd am gyngor y tîm diogelu lleol i benderfynu a oedd angen dwysau pellach drwy'r broses amddiffyn oedolion. Codwyd hyn gyda rheolwr a nyrs arwain yr uned a gysylltodd â'r tîm diogelu wedyn am ragor o gyngor.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn gofyn am gyngor y tîm diogelu lleol yn brydlon pan nodir materion diogelu posibl.

Pan ofynnwyd iddynt, roedd yr holl aelodau staff yn gallu cyflwyno bathodyn adnabod. Fodd bynnag, nid oedd y rhain bob amser yn amlwg fel y nodir yng 'Nghod Gwisg Cymru Gyfan y GIG'. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod bathodynnau adnabod aelodau staff yn gwbl amlwg yn unol â'r cod uchod.

Rheoli Meddyginiaethau

Cadarnhaodd aelodau staff bod ganddynt fynediad at bolisi'r bwrdd iechyd ar reoli meddyginiaethau. Byddai hyn yn galluogi aelodau staff i wirio eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau storio a thrin diogel ar gyfer meddyginiaethau a ddefnyddir ar yr uned. Mae fferylllydd yn ymweld yn wythnosol ac yn cynnig cefnogaeth a chynghor arbenigol ar reoli meddyginiaethau'n ddiogel.

Gwelwyd fod yr holl feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel i atal mynediad i bobl heb ganiatâd. Gwelwyd trefniadau priodol ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir.

Wrth fynd gydag aelodau staff ar rownd feddyginiaeth, gwelsom fod cleifion mewn lleoliad priodol i'w cynorthwyo i gymryd meddyginiaeth. Gwiriodd yr aelodau staff pwy oedd cleifion er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth gywir yn cael ei rhoi'n ddiogel i'r claf cywir. Roedd Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan yn cael eu defnyddio ac roedd y sampl a ystyriwyd gennym ni wedi cael ei gwblhau'n gywir gan aelodau staff. Nid oedd y rownd feddyginiaeth yn frysio gan hwyluso amgylchedd diogel i gleifion dderbyn eu meddyginiaeth.

Cadw Cofnodion

Fe'n hysbyswyd bod pob claf yn cael ei dderbyn i'r ward o ysbytai cyffredinol dosbarth cyfagos mwy yn dilyn asesiad o'u haddasrwydd i gael eu trosglwyddo gan uwch nyrs.

Dewiswyd sampl o 4 cofnod gofal gennym i asesu ansawdd cynllunio gofal a chadw cofnodion ysgrifenedig ar yr uned.

Roedd cynlluniau gofal nyrsio ar gael ar gyfer yr holl gleifion hynny a ystyriwyd. Fodd bynnag, cynhyrchwyd y rhain o'r ysbyty atgyfeirio ac nid oeddent yn dangos bob amser bod aelodau staff wedi ailasesu anghenion gofal y claf wrth ei dderbyn i'r ward. Nid oedd dogfennau asesu risg wedi cael eu diwedddaru'n brydlon bob amser. Roedd hyn yn codi cwestiynau o ran a yw'r cynlluniau gofal ysgrifenedig a'r dogfennau asesu risg yn adlewyrchu anghenion gofal cyfredol cleifion.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod anghenion gofal cyfredol cleifion yn eglur mewn cynlluniau gofal ysgrifenedig a bod effeithiolrwydd gofal yn cael ei gofnodi'n rheolaidd.

Roedd yn amlwg trwy ein harsylwadau a'n sgysiau gydag aelodau staff eu bod yn asesu ac yn gwerthuso'r gofal a ddarperir, ond nid oedd hyn wedi ei adlewyrchu'n briodol yn y cofnodion gofal ysgrifenedig.

Gwelwyd fod cofnodion gofal meddygol wedi eu cwblhau'n eglur ac wedi eu ffeilio mewn trefn gronolegol gan hwyluso rhannu gwybodaeth ddiogel ac effeithiol rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Gofal Diabetes

O'r 4 cofnod gofal a ddewiswyd, roedd 2 ar gyfer cleifion â diagnosis o ddiabetes a oedd yn bodoli eisoes. Roedd cofnodion yn cadarnhau bod camau priodol wedi cael eu cymryd gan aelodau staff i drin achosion lle nodwyd claf â glwcos gwaed isel ac i sicrhau diogelwch y claf.

Er bod 2 nyrs gofrestredig wedi cael eu nodi i fod yn nyrsys cyswllt ar gyfer gofal diabetes ar yr uned, nid oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, felly ni fyddent wedi gallu cyflawni'r swyddogaeth hon yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, roedd cymorth a chefnogaeth arbenigol i aelodau staff ar gael oddi ar y safle gan yr ysbytai cyffredinol dosbarth yn yr ardal.

Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd gyflawni Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â'r canfyddiadau allweddol o'r arolygiad a chyflwyno ei Gynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd lechyd nodi'n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Ward y Gorllewin yn Ysbyty Gorseinon, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau nad yw'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/ unedau eraill y Bwrdd lechyd.

Ar ôl ei gytuno, cyhoeddir Cynllun Gwella'r Bwrdd lechyd ar wefan Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru a chaiff ei werthuso'n rhan o'r broses arolygu Urddas a Gofal Hanfodol barhaus.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol:

Cynllun Gwella

Ysbyty:

Ysbyty Gorseinon

Ward/ Adran:

Ward y Gorllewin

Dyddiad arolygu:

18 a 19 Medi 2014

Canfyddiad	Camau Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf			
Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau nad yw gwybodaeth gleifion yn cael ei rhannu gydag eraill yn anfwriadol.			
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio arwyddion gwell a gwahanol liwiau ar ddrysau toiledau ac ystafelloedd ymolchi i gynorthwyo cleifion i ddod o hyd i'r rhain yn haws.			
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu a chynnal trefniadau priodol i sicrhau fod cleifion yn derbyn cymorth prydlon gyda'u hanghenion gofal yn ôl y gofyn.			
Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod hyfforddiant penodol ar ofal pobl hŷn yn cael ei wneud ar gael i aelodau staff.			
Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol			

Canfyddiad	Camau Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn gofyn am gyngor y tîm diogelu lleol yn brydlon pan nodir materion diogelu posibl.			
Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod anghenion gofal cyfredol cleifion yn eglur mewn cynlluniau gofal ysgrifenedig a bod effeithiolrwydd gofal yn cael ei gofnodi'n rheolaidd.			

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad:

